PWYLLGOR YMGYNGHOROL RHIANTA CORFFORAETHOL

DYDD MAWRTH, 24 EBRILL 2018

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Cynghorydd Merry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Hinchey, Jenkins, Lister, Molik, Walker a/ac Weaver |

94 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Lent.

Croesawodd y Cadeirydd Jessica Brown yn rhinwedd ei gwaith fel cynrychiolydd i bobl ifanc ac Ymgynghorydd.

95 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw rai.

96 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

97 : CYNLLUN HYFFORDDI BRIGHT START

Croesawodd y Cadeirydd Nicola Wood (Cydlynydd Rhaglen Hyfforddi Plant Sy'n Derbyn Gofal) i'r cyfarfod. Cafodd aelodau gyflwyniad ar Gynllun Rhaglen Hyfforddi Bright Start a drafododd y canlynol:

- Beth yw'r cynllun?
- Sut mae'n gweithio?
- Hyfforddi a Chymorth
- Buddion i bobl ifanc

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylw, gofyn cwestiwn neu ofyn am eglurhad pellach ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd Aelodau a weithiwyd gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid, a chawsant wybod am gyfarfod a gynhaliwyd wythnos diwethaf rhwng Bright Start a rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid. Mae mentoriaid ieuenctid hefyd wedi dod draw i wneud gweithdy gyda Bright Start.

- Dywedodd aelodau y byddai'n dda ymestyn cwmpas y gwasanaeth i roi cyfleoedd i bobl ifanc mewn meysydd fel peirianneg ac adeiladu, a chawsant wybodaeth y gall cwmnïau allanol roi hyfforddiant a bod Bright Start wrthi'n gweithio gydag Admiral sy'n awyddus i fentora pobl ifanc.

- Gofynnodd aelodau pa oed yw pobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio i'r cynllun a sawl cyfle sydd, a chawsant wybod bod y plant yn bennaf rhwng 16-21 oed a bod tua 25 hyfforddeiaeth ar hyn o bryd. Mae 20 o bobl ifanc ar restr aros ar

gyfer rhaglen hyfforddi ar hyn o bryd ac mae'n bwysig paru cyfleoedd ag unigolyn.

- Gwnaeth Aelodau hefyd ofyn sut mae'r broses yn gweithio ar y cyd â Gweithwyr Cymdeithasol a chawsant wybod bod Bright Start yn cysylltu â Gweithiwr Cymdeithasol y person ifanc ac yn cael mynediad i'w hasesiadau risg.

- Gofynnodd Aelodau p'un ai a yw'r cysylltiad â Chaffael a Kier yn ddigon cryf a chawsant wybod bod y tîm yn gweithio ar hyn, ac ar godi ymwybyddiaeth i wasanaethau gwahanol allu cynnig lleoedd. Er enghraifft, mae gan y Cyngor 700 o adrannau gwahanol, y gallai unrhyw un ohonynt gynnig lleoliad. Mae darparwyr allanol hefyd yn awyddus i weithio gyda'r cynllun. Dywedodd aelodau bod bellach gyfle i gyflenwyr caffael y cyflog byw gwirioneddol ddilyn y model hwn.

- Cafodd aelodau wybod y gall hyd y lleoliadau amrywio rhwng pythefnos ac 8 mis mewn rhai achosion, a bod rhai'n bwydo i mewn i rôl prentisiaeth gorfforaethol. Mae'r rhan fwyaf o'r lleoliadau am 3 mis, ond caiff pob lleoliad ei adolygu bob mis. Ar hyn o bryd dim ond 2% o raglenni hyfforddiant sy'n arwain at swydd barhaol ond yn aml mae'r lleoliad yn gam at swydd â thâl yn rhywle arall.

- Gofynnodd aelodau a oedd sesiynau adborth yn cael eu cynnal a chawsant wybod y daw adborth drwy grwpiau ffocws a grŵp cyfranogi NYAS.

Cafodd aelodau wybod bod y Cyngor yn dal i gael arian gan Lywodraeth Cymru a'i fod wedi dewis gwario'r grant ar y cynllun hwn. Yn ogystal â hyn, caiff cyfradd o'r gronfa Dydd Gŵyl Dewi ei gwario ar y rhaglenni hyfforddiant. Mae digon o grantiau ar gael i ehangu nifer yr aelodau yn y tîm ac felly ehangu'r cymorth i bobl ifanc hyd at 25 oed.

98 : PERFFORMIAD PLANT SY'N DERBYN GOFAL CAERDYDD 2016-2017

Rhoddodd Gillian James (Arweinydd Cyflawni, Cau'r Bwlch) drosolwg i Aelodau o Berfformiad Plant Sy'n Derbyn Gofal Caerdydd 2016-17, lle eglurodd y cafwyd rhai gwelliannau ond ar y cyfan fod y canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal yn rhy isel o'u cymharu â'u cymheiriaid.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylw, gofyn cwestiwn neu ofyn am eglurhad pellach ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd Aelodau fod Cyfnod Allweddol 4 yn destun pryder, gyda chanran uwch o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu haddysgu'r tu allan i Gaerdydd ac nad oedd unrhyw un yn y cohort wedi cyflawni trothwy L2+. Cafodd Aelodau wybod ei fod yn gohort cymhleth; roedd gan 81% o blant Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac roedd 25% wedi dod dan ofal o fewn y dwy flynedd ddiwethaf.

- Gofynnodd Aelodau pa gymorth a roddir i blant sy'n derbyn gofal a pha gynnydd a wnaed. Eglurodd swyddogion fod rhithdraciwr ar gyfer plant sy'n

derbyn gofal sy’n cynnwys proffil y plentyn, hanes ei leoliadau a chanlyniadau prawf. Cesglir gwybodaeth hefyd o *Care First*, i gadw’r wybodaeth yn gyfoes. Rhoddir enwau plant sy'n derbyn gofal i Ymgynghorwyr Her mewn ysgolion bob tymor, sydd yna'n dilyn y mater os nad yw plentyn yn cynyddu. Mae gan Addysg bellach gyfathrebu gwell â Gwasanaethau Plant ac wedi rhoi hyfforddiant i Lywodraethwyr Ysgolion. Nododd y Pwyllgor yr hoffent gyflwyniad ar y rhithdraciwr mewn cyfarfod yn y dyfodol.

- Cafodd aelodau wybod bod Addysg yn gweithio gyda thimau eraill i weld a allent helpu plant sy'n derbyn gofal, gan ei fod yn fater sy’n effeithio ar lawer o ardaloedd.

- Byddant hefyd yn gweithio gyda phartneriaid fel Admiral, lle daw graddedigion yn fentoriaid i rai plant sy'n derbyn gofal, a gyda Chylch Llawn ar raglen fentora chwe wythnos a gaiff, os bydd yn llwyddiannus, ei chyflwyno ledled Caerdydd. Mae Coleg y Brifysgol Llundain wedi gweithio gyda saith ysgol yng Nghaerdydd, gan ymchwilio beth sy’n gweithio i blant sy’n derbyn gofal. Rhoddir diweddariadau ar y projectau hyn i’r Pwyllgor yn y dyfodol.

- Gofynnodd Aelodau pam fod cynifer o leoliadau y tu allan i’r sir, a chawsant wybod taw’r prif fater oedd diffyg gofalwyr maeth.

- Nododd aelodau fod y term ‘allan o’r sir’ yn gallu bod yn gamarweiniol, gan fod rhai rhannau o Fro Morgannwg yn agos iawn at Gaerdydd er enghraifft, ac y byddai’n well yn strategol ddod â’r plant yn agosach at gartref a fyddai’n torri costau.  Cytunodd swyddogion, ond gwnaethant ddweud fod llawer o waith i’w wneud ag awdurdodau cyfagos a thaw’r lle gorau i’r plant yw yn ysgolion Caerdydd.

- Mae pwyntiau 18 ac 19 yr adroddiad yn trafod dadansoddi’r diffyg cyflawniad yn CA4 a meincnodi perfformiad yn erbyn awdurdodau yng Nghymru a Lloegr. Gofynnodd aelodau p’un ai a gâi’r canfyddiadau hyn eu cyflwyniad i’r Pwyllgor yn y dyfodol, a chawsant wybod er y gallai fod yn anodd cael rhywfaint o’r data, y caiff cynnydd ei adrodd yng nghyfarfod yr hydref.

- Amlygodd Aelodau Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant fel enghraifft dda a gofynnwyd a oedd achos dros wneud rhai ysgolion yn arbenigwyr wrth ddarparu ar gyfer anghenion plant sy'n derbyn gofal. Eglurodd swyddogion y dylai plant gael dewis pa ysgol i’w mynychu, a thaw’r nod ddylai fod dod â phob ysgol i’r un lefel â Teilo Sant. Mae croeso i aelodau ymweld â Teilo Sant i weld y gwaith a wneir yno.

PENDERFYNWYD: nodi cynnwys yr adroddiad.

99 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH/YMWELIADAU AELODAU

Rhoddodd Aelodau ddiweddariad i’r Pwyllgor ar eu rhaglenni gwaith fel a ganlyn:

- Ar bwnc Atal, dywedodd y Cyng. Molik wrth y Pwyllgor ei bod wedi cwrdd â Jan Coles ac y bu’n ddefnyddiol dysgu mwy am ei rôl.  Gwnaethant drafod pwysigrwydd cynnwys Llywodraethwyr Ysgol. Cyfarfu hefyd â Sarah Woelk,

Dan Jones ac Alys Jones, ond mae eto i ymweld â’r CAPI neu MASH am na chynigiwyd dyddiadau ymweld.

- Rhoddodd y Cyng. Hinchey ddiweddariad i’r Pwyllgor ar waith sy’n cynnwys profiad plant sy’n derbyn gofal a chanlyniadau. Aeth tuag 20 Rheolwr i gyfarfod ynghylch hyrwyddo parhauster. Mae angen cynyddu nifer y Gofalwyr Maeth o hyd ond cafwyd adborth ar Gynllun Gostyngiad Y Dreth Gyngor. Cafwyd hefyd drafodaeth â Swyddogion ynghylch creu mwy o gartrefi parhaol yng Nghaerdydd. Ar y cyfan mae pethau’n mynd yn dda a chaiff cynllun ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

- Anfonodd y Cyng. Lent ymddiheuriadau i’r cyfarfod, felly rhoddir diweddariad ar Wasanaethau Arbenigol mewn cyfarfod yn y dyfodol.

- Rhoddodd y Cyng. Walker wybod i’r Pwyllgor i sesiwn gael ei chynnal ar wella cyflawniad a chyrhaeddiad addysg plant sy’n derbyn gofal. Roedd yn sesiwn lawn a llwyddiannus. Ychwanegodd fod rhannu rhwng ysgolion yn systemataidd yn syniad da. Mae pethau da’n digwydd yn yr Alban yn y maes hwn, a byddai’n dda clywed am hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

- Diweddarodd y Cyng. Lister y Pwyllgor ar y gwaith ynghylch Rhianta Corfforaethol yn y Cyngor. Rhoddodd wybod ei fod wedi ysgrifennu at David Melding AC (Cadeirydd y Grŵp Ymgynghorol Gweinidogol) ond na chafwyd ymateb eto. O ran cyfathrebu, gallai cylchlythyr gael ei anfon ar draws y gwasanaeth (gan gynnwys Aelodau) gydag astudiaethau achos fel y gall pobl gael y wybodaeth ddiweddaraf ar y gwaith sy’n cael ei wneud. Amlygodd hefyd taw dim ond traean o’r Aelodau sydd wedi cwblhau’r hyfforddiant Rhianta Corfforaethol hanfodol.

Yn dilyn y diweddariadau hyn cafwyd trafodaeth i nodi’r camau nesaf.

PENDERFYNWYD:

- Bydd yr Aelodau’n diweddaru eu Cynlluniau Gwaith.
- Cynllunio amserlen o ymweliadau â Teilo Sant, Ysgol Gynradd Tredelerch, Crosslands, MASH a CAPI.
- Bydd Aelodau'n codi ymwybyddiaeth o hyfforddiant drwy Chwipiau.

100 : EITEM I’W THRAFOD: ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2017 - 2018

Trafododd Aelodau’r opsiwn o oedi cyflwyno’r Adroddiad Blynyddol Drafft i’r Cyngor tan fis Medi 2018. Nodwyd y gallai’r adroddiad gynnwys Cynlluniau Gwaith wrth fynd ymlaen a bod llawer o gamau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Ar y cyfan mae angen i’r adroddiad fod yn adlewyrchiad cywir o’r gwaith a wneir gan y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD: I’r Cadeirydd gysylltu ag Aelodau arweiniol o ran y Cynlluniau Gwaith a chytuno drwy e-bost p'un a ddylid gohirio’r Adroddiad Blynyddol.

101 : EITEM I’W THRAFOD: PYTHEFNOS MAETHU (14 – 25 MAI 2018)

Rhoddodd Debbie Martin-Jones (Rheolwr Gweithredol, gwasanaethau Arbenigol) wybodaeth i aelodau am y Pythefnos Mabwysiadu (14-25 Mai 2018) sydd i ddod

sydd am hyrwyddo maethu yng Nghaerdydd. Cafodd Aelodau wybod y caiff amryw ddigwyddiadau eu cynnal gan gynnwys arddangosfa yn nerbynfa Neuadd y Sir un diwrnod ym mhob un o’r ddwy wythnos, hysbyseb radio ar Capital Radio a lansio grŵp ffocws. Gellir rhyddhau marsiandïaeth ac mae croeso i Aelodau gyfrannu.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylw, gofyn cwestiwn neu ofyn am eglurhad pellach ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd yr aelodau y byddai’n dda cael cefnogaeth ASau ac ACau i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo’r digwyddiad. Rhoddodd swyddogion wybod y bydd digon o weithgareddau cyfryngau cymdeithasol.

- Dywedodd Aelodau y gallai fod stondin yn y Cyngor Llawn ym mis Mai.

- Dywedodd Aelodau y byddai’n dda cael sioe deithiol mewn ysgolion yn y dyfodol.

- Cafodd Aelodau wybod y caiff y Siarter Gofalwyr Maeth ei hail-lansio’n ystod y pythefnos, ac y gwahoddwyd Aelodau i gymryd rhan.

102 : ADRODDIADAU BRIFFIO

Nodwyd yr amryw adroddiadau briffio gan y Pwyllgor.

103 : ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 3

Cafodd Aelodau Drosolwg Perfformiad y Gwasanaethau Plant i Chwarter 3 2017/18.

Nododd aelodau fod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol yn gofyn i’r Pwyllgor adolygu data perfformiad yn rheolaidd a sicrhau bod systemau monitro perfformiad ar waith i gyflawni gwelliannau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, plant mewn angen a phobl sy’n gadael gofal.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylw, gofyn cwestiwn neu ofyn am eglurhad pellach ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd Aelodau beth oedd y prif bethau i bryderu yn eu cylch a chawsant wybod bod cynnydd yn nifer y Plant sy’n Derbyn gofal (er y rhagfynegwyd hyn), gostyngiad mewn perfformiad adolygiadau Derbyn Gofal a chynnydd yn nifer y swyddi gwag Gweithwyr Cymdeithasol, er bod swyddi newydd wedi’u creu a throsglwyddiadau mewnol wedi digwydd felly nid yw’r ffigur hwn gynddrwg ag yr ymddengys. Rhagwelwyd pob un o’r pryderon hyn.

- Cafodd Aelodau wybod bod targed salwch ac absenoldeb y Gwasanaethau Plant yn cael ei fwrw.

- Cafodd aelodau wybod ar y cyfan nad oes ystadegau pryderus yn yr adroddiad. Caiff asesiadau cyfredol eu monitro pob wythnos ac mae rheolwyr yn ymyrryd yn ôl yr angen. Roedd rhywfaint o oedi wrth ymgynnull

cynadleddau diogelu plant i ganiatáu i Swyddogion fynychu hyfforddiant Arwyddion Diogelwch.

PENDERFYNWYD: nodi cynnwys yr adroddiad.

104 : ADRODDIAD AR GWYNION A CHANMOLIAETH CHWARTER 3

Adroddiad Gwybodaeth.

PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad.

105 : ADRODDIADAU RHEOLIAD 32: CROSSLANDS

Adroddiad Gwybodaeth. Nid oedd yr eitem hon i'w chyhoeddi yn unol â pharagraff(au) 12 rhannau 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD:

- Eithrio'r cyhoedd wrth ystyried yr adroddiad
- Nodi cynnwys yr adroddiad.

106 : ADRODDIADAU RHEOLIAD 32: TY STORRIE

Adroddiad Gwybodaeth. Nid oedd yr eitem hon i'w chyhoeddi yn unol â pharagraff(au) 12 rhannau 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD:

- Eithrio'r cyhoedd wrth ystyried yr adroddiad
- Nodi cynnwys yr adroddiad.

107 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Mae cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol Rhianta Corfforaethol ddydd Mawrth, 17 Gorffennaf am 2:00pm yn Ystafell Bwyllgor 4.